



Fframweithiau cyffredin y DU ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd

Cyflwyniad gan Weithgor Cymru ac Ewrop Cytûn –Eglwysi Ynghyd yng Nghymru i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Mae Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) yn dwyn ynghyd prif enwadau Cristnogol Cymru, a nifer o fudiadau Cristnogol eraill, i gyd-weithio ar faterion sydd o ddiddordeb iddynt oll. Mae gan yr 17 aelod enwad ryw 160,000 o oedolion sy'n aelodau ymhob cymuned ar draws Cymru, a chyswllt rheolaidd â llawer mwy o oedolion, plant a phobl ifainc. Gellir gweld rhestr lawn o'r holl enwadau a mudiadau sy'n aelodau yn: <http://www.cytun.cymru/ni.html>

Ffurfiwyd Gweithgor Cymru ac Ewrop yn dilyn refferendwm Mehefin 2016 er galluogi'r eglwysi i gyd-weithio wrth ymateb i'r canlyniad a'r newidiadau sylweddol ym mywyd y genedl a ddaw yn ei sgîl. Mae i bob aelod enwad yn Cytûn ran yng ngwaith y Gweithgor. Gellir gweld yr adnoddau a gyhoeddwyd gan y Gweithgor yn: www.cytun.cymru/cymruewrop

Byddem yn croesawu cyfleoedd pellach i ymwneud â gwaith y Pwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at: Parch. Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, yn gethin@cytun.cymru. Gellir cyhoeddi'r ymateb hwn yn llawn.

- 1. Ym mha feysydd polisi, o fewn [cyllch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig](#), y mae angen fframweithiau cyffredin deddfwriaethol ac anneddfwriaethol? Ydy'r [asesiad dros dro](#) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn nodi dull priodol ac a yw'n gyflawn? A oes gennych unrhyw bryderon penodol ynglŷn â'r categori arfaethedig?**
 - 1.1 Rydym yn ymwybodol i drefniadau gael eu cytuno rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad hwn er gwneud a chadarnhau'r penderfyniadau hyn.
 - 1.2 Ni chafodd Gweithgor Cymru ac Ewrop gyfle i ystyried y broses honno na'r asesiad dros dro yn fanwl.
 - 1.3 Rydym yn bryderus am rai anghysonderau wrth gynnwys (neu hepgor) meysydd polisi penodol o'r rhestr o feysydd sydd angen fframwaith. Mae'r amodau dros geisio fframwaith a gyhoeddwyd gan y Cyd-Bwyllgor Gweinidogol (Trafodaethau Ewrop)¹ yn gyffredinol iawn, ac ymddengys iddynt gael eu defnyddio'n anghyson. Er enghraifft, nid yw'n eglur i ni pam nad oes angen fframwaith ar gyfer ansawdd dŵr – gan ei fod yn ymwneud â "rheoli adnoddau cyffredin" a mae afonydd yn llifo ar draws ffiniau cenhedloedd y DU – tra bod angen fframwaith cyffredin ar gnydau wedi'u haddasu yn enetig (GM), er bod hwn yn faes lle mae yna eisoes amrywiadau ar draws cenhedloedd y DU. Credwn y dylid cyhoeddi rhestr gliriach o egwyddorion cyffredin a fyddai'n gallu esbonio gwahaniaethau o'r fath fel y gall y cyhoedd a chyfranogwyr ddeall beth a fwriedir a pham.
 - 1.4 Gobeithiwn y bydd y trefniadau a fwriedir bellach ar gyfer llunio rheoliadau yn nodi'r meysydd lle mae angen fframweithiau dan Gymal 15 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn rhoi cyfle i gyhoeddi'r fath esboniadau. Byddwn yn pwysu ar Lywodraethau'r DU a Chymru i weithredu'r drefn hon mor dryloyw â phosibl, ac y bydd y Cynulliad Cenedlaethol a'i bwyllgorau yn gwneud yn fawr o'r cyfnod 40 niwrnod pan fydd rheoliadau Cymal 15 gerbron y Cynulliad er mwyn caniatáu ymgynghori â'r cyhoedd.
 - 1.5 Mae rhai o'n caplaniaid gwledig wedi codi mater penodol parthed Dynodiadau Daeryddol Gwarchodediog (DDG). Fe nodir yn yr asesiad dros dro (ac fe ail-adroddir yn yr Atodiad i [Gytundeb Rhwyng-lywodraethol](#) of 24 Ebrill 2018) fod Llywodraeth y DU yn credu fod yn hwn yn fater wedi'i gadw, yn hytrach nag yn fater datganoledig fydd yn ddarostyngedig i fframwaith, ond mae yna anghytundeb â'r gweinyddiaethau datganoledig am hyn. Mae'r gwaith arweiniwyd gan Hybu Cig Cymru ar hybu brand cig coch Cymru ym marchnadoedd Ewrop wedi bod yn hynod werthfawr i ffermwyr Cymru, ac fe'i sylfaenwyd ar enwau 'Cig Oen Cymru' a 'Cig Eidion Cymru'.
 - 1.6 Rydym felly yn nodi â phryder y nod a amlinellir yn [Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit](#) (DEFRA, Chwef 2018) *Building on the GREAT*

¹ Ail-argreffir yn [Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit](#) pen. 13 tt 59-60

Britain campaign, we want to help develop a British brand that can help inform those [food purchase] choices (para 25, a'r cyfan o bennod 14). Mae'n fater o bryder arbennig i'r uchelgais hwn gael ei nodi mewn dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ar y we â'r geiriau *seeking views on future agriculture policy in England*² a mynegwyd yr un peth i Swyddog Polisi Cytûn mewn cyfarfod ag uwch-gynghorydd i DEFRA. Rydym yn amau na fydd llawer o fudiadau o Gymru wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn am y rheswm hwnnw.

1.6 Yn amlwg, mae i DDGau werth dim ond os ydynt wedi eu cydnabod yn rhyngwladol (nid o fewn y DU yn unig), ac mae'n rhaid i'r drefn ar gyfer derbyn cydnabyddiaeth felly fod yn drefn ryngwladol. Ond mae'r penderfyniad p'un ai enw 'Cymreig' ynteu 'Prydeinig' (neu'r ddau) a gyflwynir i'w cymeradwyo yn un y mae gan y gweinyddiaethau datganoledig fuddiant sylweddol ynddo, ac sydd ar hyn o bryd yn ddatganoledig, fel y mae gwaith Hybu Cig Cymru (corff a noddir gan Lywodraeth Cymru) yn ei ddangos. Byddem felly yn pwysu i DDGau gael eu trin fel materion datganoledig yn ddarostyngedig i fframwaith yn hytrach nag yn faes wedi'i gadw.

2. Sut y dylid datblygu a gweithredu'r fframweithiau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol?

2.1 Mae Cytûn wedi bod yn gyson wrth ymateb i amryfal agweddau Bil yr Undeb Ewropeaidd (ymadael), yn ogystal â Bil Cymru 2016-17, y dylai aelodau'r cyhoedd gael cymaint o eglurder ag yn bosibl, wrth i newidiadau gael eu gwneud i gymwyseddau datganaoledig, ynghylch pa lywodraeth sy'n delio â pha fater, fel y gall cyfranogwyr fynd at yr aelodau etholedig cywir a'r swyddogion sydd yn atebol iddynt.

2.2 Yn achos y materion sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor NHAMG, mae dinasyddion Cymru ers 19 mlynedd wedi arfer â mynd at Aelodau'r Cynulliad ac at Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau i drafod y materion hyn. Credwn felly y dylai ymgynghori â'r cyhoedd am ddatblygu'r fframweithiau hyn fod dan arweiniad Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau yn hytrach na dan arweiniad adrannau ac asiantaethau'r DU/Lloegr yn bennaf, gan nad yw'r cyhoedd yng Nghymru wedi ymwneud â nhw yn y blynyddoedd diwethaf.

2.3 Am yr un rhesymau, credwn y dylai gweithredu fframweithiau Cytûn yn y meysydd hynny yng Nghymru fod dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn hytrach na Llywodraeth y DU.

3. Pa mor argymhellol y dylai'r fframweithiau cyffredin fod a faint o ddisgresiwn y dylai pob gweinyddiaeth ei gael o fewn y fframweithiau?

3.1 Bydd yr ateb i'r cwestiwn hwn yn amrywio o fframwaith i fframwaith. Nid ydym yn credu y dylai llunio fframwaith mewn un maes osod cynsail ar gyfer faint o hyblygrwydd a ganiateir mewn maes gwahanol, gan fod y pynciau yn amrywio gymaint, ac felly hefyd y rheswm dros fod angen fframwaith.

3.2 Lle y mae angen fframwaith ddeddfwriaethol, credwn ei bod yn angenrheidiol – am y rhesymau a nodir yn 2.2 uchod – fod gweinyddiaeth gyhoeddus y fframwaith yng Nghymru dan arweiniad Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau. Mae hyn yn golygu y gall y cyhoedd barhau i fod yn hyderus y gallant fynd at ACau etholedig a wynebaw cyfarwydd yn Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau i geisio cyngor a chefnogaeth, hyd yn oed wrth i sail gyfreithiol y gweinyddu newid.

16 Mai 2018.



Parch./Revd Gethin Rhys

Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer

Cytun - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT

Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrddig | Rhif: 1117071 | Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 05853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

² <https://www.gov.uk/government/consultations/the-future-for-food-farming-and-the-environment>